# Pwyllgor Rheoli Datblygu

**17 Gorffennaf 2024**

Yn Bresennol (Yn bersonol)
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

Yn Bresennol (Yn rhithiol)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd C George, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd B Price.

Swyddogion oedd yn bresennol
Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mrs K Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Ms C Broome, Ms B Gledhill, Mr R James, Mr A Richards (Tîm Rheoli), Mr T Boothroyd (Swyddog Mineralau), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.45am;
12.00pm – 1.15pm; 1.45pm - 2.45pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth y Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer a Mr M Kent (Swyddog Monitro)

2. **Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Cofnodion 6(b) isod NP/22/062/FUL - Datblygu 72 o unedau preswyl - Tir i'r dwyrain o Sandy Hill, Saundersfoot | Cynghorydd C Williams | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth a'r pleidleisio dilynol |
| Cofnodion 6(c) isod NP/24/0213/FUL - Cais Cynllunio ôl-weithredol ar gyfer ail-broffilio Wyneb Deheuol Chwarel Caeriw, a gwaith | Cynghorydd V Thomas | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth a'r pleidleisio dilynol |

| | | |
|---|---|---|
| tirweddu cysylltiedig - Chwarel Caeriw, Caeriw Newton | | |
| Cofnodion 6(d) isod NP/24/0227/FUL - Maes gwersylla ar gyfer 40 o leiniau glaswellt gan gynnwys is-strwythur, draeniad, bachyn trydan a chyfleusterau glanweithiol – Fferm Parke, Merrion | Cynghorydd S Alderman | Gadael y cyfarfod tra roedd y mater o dan drafodaeth |
| Cofnodion 6(f) isod NP24/0160/FUL - Newid defnydd tir i leoli uned arlwyo ar ffurf fan Ffrengig (A3) - Tir y tu blaen i'r Adeilad Glo, Saundersfoot | Cynghorydd C Williams | Gadael y cyfarfod tra roedd y mater o dan drafodaeth |

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024, 19 Mehefin 2024 ac 8 Gorffennaf 2024 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd James, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Thomas, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024, 19 Mehefin 2024 ac 8 Gorffennaf 2024.

**Nodwyd.**

4. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y

Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn nodi bod penderfyniadau'r Awdurdod yn agored i gael eu scrwtineiddio ac y medren nhw fod yn fater o adolygiad barnwrol a'i bod yn bwysig felly eu bod yn gyfreithiol gywir.

**Nodwyd.**

5. **Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/22/0621/FUL Cofnod 6(b) cyfeir | Datblygu 72 o unedau preswyl - Tir i'r dwyrain o Sandy Hill, Saundersfoot Sir Benfro SA69 9DR | Mr Robert Clements – Gwrthwynebydd James Scarborough – Asiant |
| NP/24/0213/FUL Cofnod 6(c) cyfeir | Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer ail-broffilio Wyneb Deheuol Chwarel Caeriw, a gwaith tirweddu cysylltiedig - Chwarel Caeriw, | Catherine Nicholas – Gwrthwynebydd Ian Walton – Asiant |
| NP/24/0160/FUL Cofnod 6(f) cyfeir | Newid defnydd tir i leoli uned arlwyo ar ffurf fan Ffrengig (A3) - Tir y tu blaen i'r Adeilad Glo, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE | Philip Odley – Ymgeisydd |

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y

ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) Cyfeirnod: NP/24/0198/FUL
Ymgeisydd: Adventure Beyond (Jet Moore)
Cynnig: Adeiladu a newid defnydd yn ganolfan antur awyr agored, a stiwdio gelf a lle storio uwchben, a gwaith cysylltiedig
Lleoliad: The Old Bus Depot, Trewyddel, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3BW

Adroddwyd bod ystyriaeth o'r cais hwn wedi'i ohirio tan y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

(b) Cyfeirnod: NP/22/0621/FUL
Ymgeisydd: Persimmon Homes West Wales
Cynnig: Datblygu 72 o unedau preswyl
Lleoliad: Tir i'r dwyrain o Sandy Hill, Saundersfoot, Sir Benfro SA69 9DR

Adroddwyd bod safle'r cais yn cynnwys dau ddarn mawr o gaeau amaethyddol presennol yn union i'r gorllewin o ystâd breswyl Sandy Hill Park oddi fewn i Saundersfoot. Roedd y safle yn ddarn o dir wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad preswyl oddi fewn i Gynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol 2 (CDLl2).

Gofynnid am ganiatâd cynllunio i godi 72 o dai preswyl a rhandai ynghyd â ffurfio ffyrdd ystâd ac adeileddau cysylltiedig yn cynnwys Ardal Chwarae Lleol gydag Adnoddau (LEAP). Byddai'r datblygiad yn cynnwys 47 o anheddau marchnad agored a 25 o unedau tai fforddiadwy.

Yn dilyn ystyriaeth o'r polisïau sydd wedi'u cynnwys oddi fewn i'r Cynllun Datblygu (Dyfodol Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol 2) statudol a'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), ac o ystyried pob dim perthnasol, ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn unol â'r Cynllun Datblygu, ac roedd y datblygiad yn cael ei ystyried yn ddatblygiad oedd yn dderbyniol mewn egwyddor ac y gellid ei gefnogi gan y swyddogion, yn amodol ar dderbyn cytundeb cyfreithiol priodol i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol ar gyfer y safle. O'r herwydd yr argymhelliad oedd dirprwyo'r cais i'r swyddogion i roi caniatâd yn amodol ar dderbyn cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn delio â darpariaeth Tai Fforddiadwy, Man Agored a chyfraniad ariannol tuag at Lwybr Teithio Llesol, a gwelliannau safle bws, ac yn amodol ar yr amodau sydd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad, ar yr amod fod y cytundeb cyfreithiol yn cael ei dderbyn o fewn tri mis i ddyddiad y penderfyniad.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod ymateb wedi'i dderbyn wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ac Ecolegydd yr Awdurdod ers ysgrifennu'r adroddiad a'u bod yn cefnogi'r cynllun diwygiedig gydag amodau. Cynghorodd y swyddog hefyd bod enwau'r ymgeisydd a'r asiant wedi'u newid ac roedd yna nifer o newidiadau i'r amodau arfaethedig, ac roedd y rhain wedi'u hamlinellu; roedden nhw hefyd wedi'u hanfon at yr Aelodau cyn y cyfarfod.  I grynhoi, roedd amodau 4, 15, 16 a 17 i'w gollwng tra bod newidiadau geiriol i amodau 2, 5, 7, 8, 9, 10, 11, 12 a 14.  Byddai amod 6, yn ymwneud â gwaith uwchraddio'r safle bws, yn cael ei gynnwys yn y Cytundeb S106. Gofynnwyd am amodau ychwanegol hefyd yn gofyn am gyflwyno samplau o orffeniadau allanol yn ogystal â chynllun goleuo ar gyfer yr anheddau. Gofynnodd yr Aelodau am addasu'r amod hwnnw i sicrhau ei fod yn cael ei gadw am byth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau nododd y swyddog o ran colli cloddiau hanesyddol roedd y darnau fyddai'n cael eu gwaredu wedi'u caniatáu o dan Reoliadau Perthi, ac roedd y cais yn cynnwys cynllun tirweddu cadarn i gynorthwyo i guddio'r datblygiad, yn ogystal â mesurau hyrwyddo bioamrywiaeth. O ran y llwybr teithio llesol eglurodd y swyddog y byddai hwn yn ymestyn o harbwr Saundersfoot i gylchdro New Hedges, gan wneud defnydd o lwybrau cerdded cyfredol ac uwchraddio darnau eraill: byddai'r ymgeiswyr yn cyfrannu'n ariannol tuag at y cynllun cyfan, yn ogystal â darparu darn o'r llwybr oddi fewn ffin y safle. Eglurodd y swyddog hefyd bod ymgynghori wedi bod â Swyddog Tai Cyngor Sir Benfro ynghylch y ganran o dai fforddiadwy fyddai'n cael eu darparu.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd Robert Clements. Diolchodd i'r datblygwyr a'r Awdurdod am ddelio â nifer o faterion a godwyd gan y gymuned leol yn ystod camau cynt, ond roedd yn dal i bryderu y byddai'r anheddau yn cael eu gosod fel tai gwyliau neu yn ail gartrefi, ac roedd o'r farn y dylid gosod amod prif annedd ar rai os nad pob un o'r tai marchnad agored. Roedd hefyd o'r farn bod y cynigion yn gyfystyr â gorddatblygu'r safle gan fod y dwysedd wedi cynyddu o 30 o anheddau fesul hectar, fel roedd wedi'i osod allan yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Roedd o'r farn y byddai'r gosod allan arfaethedig, lle'r oedd yna barcio ar gyfer rhai anheddau heb fod gyferbyn â'u heiddo, yn arwain at barcio palmant a mannau cyfyng ar y ffyrdd mynediad. Mynegodd bryderon hefyd ynghylch trafnidiaeth ychwanegol ar hyd Heol Sandyhill gan wneud y tagfeydd presennol yn waeth. Dywedodd Mr Clements bod mynediad diogel i gerddwyr i'r safle ac oddi arno yn fater i gytuno yn ei gylch am nad oedd hyn wedi'i ddangos ar y cynlluniau, ac y dylid cynnwys amod yn cyfyngu oriau gwaith er mwyn lliniaru effeithiau sŵn. Nododd bod meddygfa'r meddyg eisoes yn orlawn ac roedd yn pryderu na fyddai'r datblygiad hwn yn gwella'r sefyllfa. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â rhannu ffyrdd preifat a'r defnydd o gerrig llwyd na fyddai'n gweddu i'r ardal leol.

Anerchwyd y cyfarfod gan yr asiant, James Scarborough, wedyn. Nododd bod y datblygiad yn gydnaws â'r CDLl2 gan fod y safle wedi'i neilltuo drwy'r cynllun. Byddai nifer uwch o dai, sydd eu dirfawr angen yn Saundersfoot, yn cael eu darparu gyda 72 o unedau yn hytrach na'r 68 oedd wedi'u darogan, ac y byddai 47 yn dai marchnad agored a 25 o unedau yn dai cymdeithasol yn cael eu darparu fel blociau o randai; roedd yna asesiad trylwyr wedi'i wneud i ganfod angen lleol. Roedd y cais hefyd wedi bod yn destun ymgynghori ar raddfa eang a doedd yna'r un gwrthwynebiad technegol wedi'i godi gan yr un o'r ymgynghorwyr statudol. Roedd yr asiant yn ystyried bod y cynllun o ansawdd uchel a bod gosod allan arfaethedig a dwysedd yn diogelu mwynder; byddai Ardal Chwarae Lleol gydag Adnoddau (LEAP) hefyd yn cael ei ddarparu. Doedd y priffyrdd ddim wedi gwrthwynebu; gellid sicrhau gweledededd digonol a byddai'r cyfyngiad cyflymder 30myw yn cael ei ymestyn gan reoliadau trafnidiaeth cyn meddiannu'r anheddau; roedd cyfraniad ariannol i'r Llwybr Teithio Llesol wedi'i ddarparu. Roedd yr ymgeisydd wedi cydweithio gyda'r ecolegydd i sicrhau hyrwyddo bioamrywiaeth yn ogystal â phlannu coed a pherthi brodorol. Roedd Cynllun Rheoli Tirweddu ac Ecolegol (LEMP) wedi'i ddarparu a fyddai'n sicrhau parhau hyn yn y tymor byr a'r tymor hir. Roedd yna bwll arafu wedi'i gynnig o ran draenio ac roedd Dŵr Cymru/Welsh Water wedi cadarnhau bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn ddigonol. I grynhoi roedd y datblygiad yn unol â pholisi ac yn cyfrannu at gyflenwi tai mewn lleoliad cynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau cadarnhaodd yr Asiant bod yna ymgynghori gyda thrigolion lleol wedi bod yn y cyfnod cyn-ymgeisio ym mis Mai 2022, ac roedd eu sylwadau wedi cael sylw yn y cynllun oedd gerbron y Pwyllgor. Hefyd byddai'r llwybr fyddai'n cael ei rannu mewn defnydd cyn y byddai neb yn symud i'r safle. O ran y pedwar perchnogaeth cartref cost-isel (LCHO) cynghorodd nad oedd eu lleoliad wedi'i benderfynu eto, ac fe gadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu y byddai'n bosib nodi'r rhain yn y Cytundeb S106 yn union fel y nodir lleoliad yr unedau fforddiadwy. Eglurodd hefyd y byddai'r eiddo LCHO yn cael eu gwerthu am 70% o brisiau'r farchnad agored i berson oedd yn deilwng i'w prynu, ac y byddai'r meini prawf hyn yn para am byth. Ychwanegodd yr asiant bod Persimmon Homes fel arfer yn gofyn am 5% o flaendal ar eu heiddo gan ddarparu cyfle gwell fyth i drigolion lleol brynu eiddo.

Roedd rhai Aelodau yn pryderu ynghylch parcio ac fe gadarnhawyd y byddai gan bob cartref ddau le parcio a pob fflat un lle parcio. Nododd y swyddog o blith yr eiddo fyddai ganddyn nhw garejis dim ond tri fyddai ag un lle parcio yn ychwanegol i'r garej. O ran oriau gwaith cynghorodd y swyddog y byddai rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu fel rhan o amod ac y byddai hwn yn nodi'r oriau gwaith adeiladu arferol.

Aeth yr Aelodau yn eu blaenau i chwennych barn y swyddogion ar weledEdd y datblygiad o ystyried ei safle uchel ac fe'u cynghorwyd y byddai'r datblygiad wedi'i osod yn ôl o'r ffordd, ac y byddai hyn a chadw'r clawdd presennol yn darparu rhanguddio. O ran y pryderon ynghylch ail gartrefi cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at yr asesiad sylweddol oedd wedi'i ychwanegu at yr adroddiad. Cynghorodd y swyddog hefyd nad oedd y Llwybr Teithio Llesol yn ffurfio rhan o'r cais ond roedd wedi cael arddeall bod yr Awdurdod Priffyrdd yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau er mwyn lleddfu tagfeydd.

Yn dilyn cynnig y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan Mrs James, cynigiwyd y dylai'r cais gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cynllunio neu'r Rheolwr Rheoli Datblygiad i roi caniatâd yn ddibynnol ar dderbyn cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn delio â darpariaeth Tai Fforddiadwy, Man Agored, gwelliannau safle bws a chyfraniad ariannol tuag at Lwybr Teithio Llesol ac yn amodol ar amodau a nodwyd yn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cynllunio neu'r Rheolwr Rheoli Datblygu i roi caniatâd yn amodol ar dderbyn cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn delio â darpariaeth Tai Fforddiadwy, Man Agored, gwelliannau safle bws a chyfraniad ariannol tuag at Lwybr Teithiol Llesol, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, draenio, LEMP, darparu llwybr i rannu ei ddefnydd, ymestyn cyfyngiad cyflymder, trefniadau mynediad, parcio a throi, Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu, manylion Coedyddiaeth, tirweddu, diogelu coed/llwyni, plannu, ecoleg, Cynllun Hyrwyddo Bioamrywiaeth, goleuo a gorffeniadau allanol.**

**Pe na bai'r cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn cael ei gwblhau o fewn tri mis i ddyddiad penderfyniad y Pwyllgor, yna, rhoddwyd grym dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cynllunio neu'r Rheolwr Rheoli Datblygu i ddefnyddio eu doethineb i Wrthod y cais ar y sail na chydymffurfiwyd â Pholisi 48 (Tai fforddiadwy) a Pholisi 55 (Gofynion Isadeiledd) o'r Cynllun Datblygu Lleol 2.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.45am a 12 hanner dydd]

(c) Cyfeirnod: NP/24/0213/FUL
Ymgeisydd: A & C Aggregates
Cynnig: Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer ail-broffilio Wyneb Deheuol Chwarel Caeriw, a gwaith tirweddu cysylltiedig
Lleoliad: Chwarel Caeriw, Caeriw Newton, Cilgeti, Sir Benfro, SA68 0TP

Adroddwyd bod safle'r cais wedi'i leoli yn union i'r de o Chwarel Caeriw oedd wedi'i ganiatáu. Yn dilyn adroddiadau o waith peirianyddol a gwaredu coed heb awdurdod o'r safle ym mis Hydref 2023 cyflwynwyd Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio a Hysbysiad Rhybudd Gorfodaeth, ac o ganlyniad cyflwynwyd y cais hwn. Roedd cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol i ail-broffilio gwaith ar dir amaethyddol i'r de o Chwarel Caeriw, i gynnwys dau dwll turio dros dro ar gyfer monitro, wedi'u caniatáu trwy ddirprwyo yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, ac o ganlyniad wedi'u gweini ar 24 Mehefin 2024 yn dilyn cadarnhad wrth CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) ynghylch y modd o ymateb i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Roedd y chwarel wedi'i leoli mewn tirwedd sensitif iawn a oedd o werth hanesyddol eithriadol gydag amrediad o asedion yn cynnwys Henebion Hynafol Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig ac Ardal Gadwraeth Caeriw gyda Chastell Caeriw a'r Felin Lanw gerllaw. Roedd asesiad desg o'r asedau hanesyddol hyn wedi'i gyflwyno gyda'r cais oedd yn dweud mai prin oedd y potensial ar gyfer archwilio archeolegol ar y safle, ac yn ychwanegol, ni fyddai unrhyw effaith ar yr asedau treftadaeth a nodwyd na chwaith eu lleoliadau.

Roedd adroddiad sefydlogrwydd ar gyfer yr ardal i'r de o'r chwarel wedi awgrymu bod y gweithredu cloddio ychwanegol wedi bod yn angenrheidiol i leihau'r posibilrwydd o unrhyw faterion sefydlogrwydd, yn arbennig oherwydd presenoldeb ffawtlin yn rhedeg yn gyfochrog â safle blaenorol wyneb y chwarel. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r amgylchedd dŵr wedi dangos, o gyflwyno'r mesurau lliniaru arfaethedig, na fyddai'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol. O ran ecoleg roedd y cynnig wedi ceisio gwerthuso gwerth y cynefin cyn ei waredu a'i werth o osod unrhyw fesurau lliniaru yn eu lle. Roedd yr ystyriaethau hyn, ynghyd ag ystyriaethau yn ymwneud â'r tirlun a gosodiad adeiladau rhestredig gerllaw, hefyd wedi dylanwadu ar y cynllun dylunio tirweddol, ac roedd y rhywogaethau coed a llwyni wedi'u cynnwys yn hyn. O ran y tirlun cydnabyddid bod gwaredu coed ynn wedi achosi effaith dros gyfnod byr. Ond o gynnwys amodau, yn benodol mewn perthynas â chynllun plannu manwl (gyda pheth newidiadau i'r rhywogaethau a dwysedd sydd yn y cynllun a gyflwynwyd) ystyriwyd y

byddai'r bwnd plannu yn arwain at fudd tymor hir wrth eu gosod yn lle'r coed a dorrwyd, ac yn darparu cuddio digonol i'r chwarel.

Roedd y swyddogion o'r farn bod y cynnig ar y cyfan yn gyfystyr â dull derbyniol o liniariad ar gyfer y datblygiad oedd eisoes wedi digwydd yn y chwarel. Roedd y mesurau arfaethedig yn darparu lliniaru addas ac yn gwneud iawn am golli nodweddion cuddio ac ecolegol ar y safle, ac roedd y rhain yn cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol, ac roedd y cais felly yn cael ei argymell i'w gymeradwyo.

Roedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) drafft wedi'i baratoi gan yr Ecolegydd gan ddod i'r casgliad, o osod amodau wedi'u geirio'n briodol, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion dynodedig yn y cyffiniau. Doedd yr HRA ddim hyd yn hyn wedi'i gytuno'n ffurfiol gan GNC ac felly'r argymhelliad oedd dirprwyo rhoi cymeradwyaeth i'r swyddogion, yn amodol ar dderbyn cytundeb wedi'i lofnodi gan GNC o'r asesiad.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod ymateb pellach wedi dod i law wrth CNC yn gofyn am fanylion pellach ynghylch rheoli llaid ac o ganlyniad roedd amod arall wedi'i gynnig yn gofyn am Gynllun Rheoli Llaid.

Y siaradwr cyntaf ar y mater oedd Katherine Nicholas oedd yn siarad ar ran ei rhieni a nifer o bentrefwyr eraill yn mynegi eu pryder ynghylch y chwarel, gan nodi'n benodol bod gwaith yn cael ei wneud byth a hefyd heb ganiatâd cynllunio, a heb ymgynghori â thrigolion lleol. Roedd hi hefyd yn tynnu sylw at golli coed, nid yn unig ynn ond derw, ieuwyd a chastanwydd ac roedd y rhain, ynghyd â'r clawdd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Roedd hi'n dal i bryderu ynghylch gwaith ar y safle oedd yn achosi sŵn a llygredd llwch, a gofynnodd beth oedd pwrpas y tyllau cloddio fyddai'n monitro. Roedd hi hefyd yn pryderu'n fawr fod y chwarel yn bwriadu cloddio'r wyneb gorllewinol a oedd yn agos iawn i adeiladau yn y pentref, y briffordd a gwasanaethau eraill yn ogystal â'r Castell.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod cynghorodd y Cyfarwyddwr bod y chwarel yn cael ei harchwilio ac o ganlyniad i'r pryderon a fynegwyd byddai monitro ychwanegol yn digwydd. Cynghorodd hefyd bod yr Awdurdod yn croesawu unrhyw wybodaeth/pryderon wrth y cyhoedd, ac y byddai ffotograffau yn arbennig o gynorthwyol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Ian Walton, wedyn. Esboniodd bod y chwarel yn weithredol a bod ei ganiatâd cynllunio wedi'i adolygu ddiwethaf yn 2019. Nododd bod y cais ôl-weithredol yn cynnwys arolwg technegol yn tynnu sylw at gyfiawnhad iechyd a diogelwch y gwaith. Nododd bod y rhan helaethaf o'r clawdd wedi'i waredu er mwyn delio â'r coed ynn oedd yn gwywo fel yr argymhellwyd gan arolwg coedyddiaeth.

Fodd bynnag, roedd yr ymgeisydd yn croesawu'r amod ynghylch rheoli'r tirlun a chyfarfodydd adolygu blynyddol. O ran perygl llifogydd a rheoli rhediad dŵr nododd fod cais am gymeradwyaeth SAB eisoes wedi'i gyflwyno, ac roedd hwn yn cynnwys cynllun rheoli llaid. I derfynu dywedodd fod y ffotograffau a gyflwynwyd y bore hwnnw yn dangos wyneb chwarel 20m o uchder unionsyth ond nododd bod yna wyneb pellach 30m o dan y dŵr oedd yn golygu bod wyneb y chwarel mewn gwirionedd yn 50m bron yn unionsyth, ac y gallai hyn fod yn ansefydlog fel roedd yr adroddiad technegol wedi'i nodi. Roedd y sefyllfa yma wedi'i etifeddu pan brynwyd y safle gan y perchnogion presennol AC Aggregates. Roedd hefyd yn gobeithio y byddai'r bwnd yn darparu datrysiad tymor hir i'r sŵn a'r llwch trwy wella'r cuddio o'r gweithgaredd chwarel presennol; roedd yr ymgeisydd yn cefnogi'r wybodaeth yn awgrymu asesiad acwstig cyn defnyddio peiriannau trwm yn unol ag arfer da.

Gofynnodd un Aelod gwestiwn ynghylch diffyg ymgynghori â thrigolion lleol, a nododd yr asiant y pryderon a fynegwyd gan gynghori bod ei gleientiaid wedi cymryd y safle drosodd ychydig o flynyddoedd yn ôl, a'i fod wedi argymell y byddai ymwneud cyhoeddus yn synhwyrol. Roedd y cwmni hefyd wedi darparu mynediad i'r adaregydd lleol ac roedden nhw'n falch o glywed nad oedd y ffrwydradau diweddar wedi amharu ar yr hebogiaid tramor oedd yn nythu. Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y gwrthwynebydd cadarnhaodd Mr Walton nad oedd mwy o greigiau nad oedd yn ofynnol wedi'u eu tynnu, a'i bod yn angenrheidiol gwaredu'r clawdd er mwyn sefydlogi wyneb y chwarel. Esboniodd hefyd bod y tyllau turio yn rhan angenrheidiol o drwydded echdynnu er mwyn lleihau lefelau dŵr yn y chwarel. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr eu bod yn ffurfio rhan o'r cais a ystyriwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Er bod yr Aelodau yn siomedig o dderbyn cais ôl-weithredol fe gafodd yr argymhelliad o roi cymeradwyaeth ddirprwyol ei gynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan Mr Jones, gydag amod ychwanegol yn ymwneud â rheoli llaid yn ogystal ag amod pellach ar awgrym y swyddog yn ei gwneud yn ofynnol i'r deunyddiau fydd yn ffurfio'r llwybr y tu ôl i'r bwnd gael ei gytuno yn ysgrifenedig.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r swyddogion i gymeradwyo yn amodol ar dderbyn ymateb ffurfiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ran yr Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, diogelu clawdd/coed, cynllun tirweddu, cynllun rheoli tirwedd, adolygiad blynyddol ac ôl-ofal, rheoli llaid a chytuno ar ddeunyddiau'r llwybr.**

[Am iddo ddatgan diddordeb rhagfarnol gadawodd y Cynghorydd S. Alderman y cyfarfod tra ystyriwyd y cais canlynol.]

(d) Cyfeirnod: NP/24/0227/FUL
Ymgeisydd: Charles Goldsworthy
Cynnig: Maes gwersylla ar gyfer 40 o leiniau glaswellt gan gynnwys is-strwythur, draeniad, bachyn trydan a chyfleusterau glanweithiol
Lleoliad: Fferm Parke, Merrion, Penfro, Sir Benfro, SA71 5DU

Adroddwyd bod y cais hwn yn ail-gyflwyniad o gynllun a wrthodwyd cynt gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y sail y byddai datblygu'r safle yn golygu colli Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn Adroddiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn dangos nad oedd yr holl dir a oedd yn rhan o'r cais yn Radd Dau fel roedd wedi'i ddangos ar Fap Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) rhagfynegol Llywodraeth Cymru.

Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 (PPW12) yn ei gwneud yn ofynnol i dir amaethyddol BMV gael ei gadw fel adnodd cyfyngedig ar gyfer y dyfodol gyda chryn bwysau yn cael ei roi i'w ddiogelu rhag datblygiad. Ni ddylid datblygu tir o'r fath oni bai bod yna angen dirfawr, a phan nad oes tir oedd wedi'i ddatblygu eisoes neu dir o raddau amaethyddol llai ar gael. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ac roedden nhw'n cytuno â chasgliadau'r Adroddiad ALC.

Ystyriai'r swyddogion bod materion gosod allan, dyluniad, effaith priffyrdd a bioamrywiaeth yn dderbyniol, a bod y cynnig yn cael ei ystyried yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol, ac felly'r argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais gydag amodau.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod ymateb wedi'i derbyn wrth ecolegydd yr Awdurdod ers ysgrifennu'r adroddiad yn argymell cynnwys amod hyrwyddo bioamrywiaeth, a chynghorodd y swyddog y gellid sicrhau hyn trwy gyflwyno Cynllun Rheoli Ecolegol a Thirwedd, a'i gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei gadw yn unol â'r Cynllun wedi hynny. Cynghorodd y swyddog hefyd ynghylch mân ddiwygiadau o natur argraffyddol amodau dau a saith.

Holodd un Aelod beth oedd y llinyn mesur dros ganiatáu safleoedd gwersylla y tu fas i aneddiadau ac fe gynghorodd y Cyfarwyddwr bod polisi'r Awdurdod yn edrych ar gynaladwyedd y lleoliad a'r effaith ar y tirlun. Yn yr achos hwn roedd y safle o fewn pellter cerdded o gysylltiadau cludiant cyhoeddus ac roedd yna amod yn cyfyngu'r nifer a natur dymhorol y datblygiad er mwyn diogelu'r tirlun, yn arbennig pan nad oedd dail ar y coed. Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud ag adeileddau

dros dro y gofynnwyd amdanyn nhw cynghorodd y swyddog y byddai angen cais pellach i osod adeileddau parhaol.

Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo, yn ddibynnol ar amodau gan gynnwys yr amod bioamrywiaeth ychwanegol, gan Dr Heath-Davies, a'i eilio gan y Cynghorydd James.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddibynnol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, nifer a chyfnodau'r carafanau ar y safle, dŵr wyneb, gwelliannau mynediad, cilfannau pasio, parcio, diogelu coed/cloddiau, datganiad dull coedyddiaeth, tirweddu, diogelu cyrsiau dŵr, goleuo a hyrwyddo bioamrywiaeth.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd Hancock a Dr Heath-Davies eu hymddiheuriadau gan adael y cyfarfod.]

[Gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 1.15pm a 1.45pm]

[Ail-ymunodd y Cynghorydd Alderman a'r Cynghorydd Williams â'r cyfarfod ar-lein]

| | | |
|---|---|---|
| (e) | Cyfeirnod: | NP/23/0622/S73 |
| | Ymgeisydd: | Mr J Edwards |
| | Cynnig: | Amrywio amod rhif 2 o NP/16/0247/S73 – Cynlluniau diwygiedig |
| | Lleoliad: | Llain 1, Uzmaston Projects, Broadway, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3HX |

Ymddiheurodd y swyddog bod y cyfeirnod cynllunio anghywir wedi'i roi yn yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor. Adroddodd bod caniatâd yn cael ei chwennych o dan Adran 73 o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod dau o'r cais cyfeirnod NP/16/0247/S73 i ganiatáu newid dyluniad ar gyfer annedd arfaethedig newydd wedi'i lleoli ar Lain 1, Broadway. Roedd pob manylyn arall yn dal fel yr oedden nhw wedi'u caniatáu cynt.

Roedd lleoliad y llain mewn ardal lle nad oedd y CDLl2 presennol yn ei ystyried yn addas ar gyfer anheddau newydd, ond roedd y caniatâd cynllunio cyfredol oedd yn ei le yn ystyriaeth berthnasol o bwys. Roedd y cais felly yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Rheoli Datblygu am ei fod yn wyriad oddi ar y cynllun lleol oedd wedi'i fabwysiadu, ac roedd argymhelliad i roi caniatâd yn cael ei wneud. Doedd yna ddim sylwadau anffafriol wedi dod i law wrth yr un o'r ymgynghorwyr a doedd dim sylwadau trydydd parti wedi dod i law chwaith. Cadarnhaodd y Rheolwr

Datblygu nad oedd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am wyriad o ran cynllun mor fychan.

Roedd cytundeb cyfreithiol newydd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod mewn perthynas â swm o arian wedi'i gymudo tuag at dai fforddiadwy oddi ar y safle, ac ar gyfer defnydd o'r atig i barhau fel y mae hyd byth.

Roedd dyluniad yr annedd newydd, er yn wahanol iawn i' r hyn gynigiwyd yn wreiddiol, yn cael ei ystyried yn dderbyniol. Ar y cyfan, ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol ac argymhellwyd rhoi caniatâd cynllunio, gydag amodau, a chytundeb cyfreithiol yn ei le.

Nodwyd pan oedd y datblygiad wedi'i ganiatáu yn wreiddiol roedd amodau wedi'u gosod o ran tirweddu a goleuo allanol. Roedd yr amodau hyn wedi'u gollwng o dan cais NP/17/0475/DOC. Roedd Datganiad Isadeiledd Gwyrdd wedi'i gyflwyno gyda'r cais yn cyfeirio at yr amodau blaenorol oedd wedi'u gollwng, ac yn nodi y byddai pob tirweddu yn cael ei gyflawni yn unol â'r amodau hynny. Fodd bynnag, gan fod caniatáu cais o dan Adran 73, i bob pwrpas, yn gyfystyr â rhoi caniatâd o'r newydd, byddai cynllun tirweddu newydd ar gyfer Llain 1 yn angenrheidiol. Hefyd roedd angen amodau ychwanegol o ran y goleuo arfaethedig ac unrhyw oleuo ychwanegol yn y dyfodol, ynghyd ag amod yn ymwneud â blwch adar/ystlum. Byddai amod chwech hefyd yn cael ei ollwng am ei fod yn dyblygu amod pedwar.

Doedd pob aelod ddim yn hoff o'r dyluniad newydd ond yn derbyn mai mater o farn oddrychol oedd hynny, ac roedden nhw felly yn falch o weld yr amodau goleuo am fod y dyluniad newydd yn cynnwys mwy o wydro. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan Mrs James, cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo, gydag amodau, yn cynnwys y rhai hynny a gynghorwyd yn y cyfarfod, ei dderbyn.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, cynllun tirweddu, plannu a hadu, parcio a throi, mynediad, draenio dŵr brwnt a dŵr wyneb, gwaredu rhai hawliau datblygu wedi'u caniatau, llygredd, goleuo a darparu blwch adar/ystlumod.**

[Gan ei fod wedi datgan buddiant rhagfarnol, gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod pan ystyriwyd y cais canlynol.]

(f) Cyfeirnod: NP/24/0160/FUL
Ymgeisydd: Mr P Odley
Cynnig: Newid defnydd tir i leoli uned arlwyo ar ffurf fan Ffrengig (A3)
Lleoliad: Tir y tu blaen i'r Adeilad Glo, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i newid defnydd o'r tir y tu blaen i'r Adeilad Glo yn Harbwr Saundersfoot, ar gyfer gosod uned arlwyo symudol. Byddai'r uned ei hun ar ffurf fan mewn arddull Ffrengig ac yn las a hufen o ran lliw. Roedd un datganiad trydydd parti wedi dod i law ynghylch y cais ac roedd y prif bwyntiau a nodwyd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, a phryderon perthnasol wedi'u hystyried.

Roedd y Tîm Polisi Strategol wedi tynnu sylw at y ffaith bod y cynnig yn gorwedd y tu fas i ganol mân-werthu Saundersfoot a'i fod felly yn groes i Bolisïau 56 a 57, ond, fodd bynnag, doedd maint a natur y defnydd mân-werthu a gynigid ddim o'r math fyddai'n cael effaith andwyol ar hyfywedd Canol Saundersfoot. Roedd ail-ddatblygu Harbwr Saundersfoot fel rhan o brosiect adfywio oedd wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at symud y Canol mân-werthu yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd y cynnig hwn yn cael ei ystyried yn ddefnydd atodol yn cefnogi'r ardal adfywio ehangach. O'r herwydd, er gwaethaf ei leoliad y tu fas i'r Canol Mân-werthu yr argymhelliad oedd ei gymeradwyo ar raddfa dymhorol.

Yn y cyfarfod gofynnodd y swyddog am ddiwygio amod arfaethedig dau i gynnwys hyrwyddo'r cynllun bioamrywiaeth yn y rhestr o gynlluniau, ac i hepgor amod pump am fod y perygl o lifogydd yn yr adeilad glo mor fychan, fel na fyddai'n atebol i danysgrifio i wasanaeth rhybudd llifogydd CNC, a bod yr amod felly yn afresymol. Fe fyddai'r wybodaeth, fodd bynnag, yn cael ei gynnwys fel mater o wybodaeth.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr ymgeisydd, Mr Phil Odley. Cynghorodd ei fod wedi bod yn gwerthu donyts yn Saundersfoot ers 26 mlynedd a'i fod wedi adleoli ei adeiladau i ganiatáu datblygu'r harbwr newydd. Fodd bynnag roedd wedi dod i'r casgliad bod yr unedau newydd yn fychan, a bod ei werthiant wedi dioddef, ac o'r herwydd roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno. Dywedodd ei fod yn un o sefydlwyr Siambr Dwristaidd Saundersfoot ac iddo fod yn rhan o gymuned fusnes Saundersfoot gydol ei oes waith. Byddai'r uned arfaethedig yn cyflogi dau berson tymhorol a dau berson ychwanegol yn rhan amser adeg gwyliau ysgol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau cadarnhaodd Mr Odley bod y fan yn rhannol-sefydlog ac y byddai'n aros yn yr unfan gydol y tymor. Cafwyd trafodaeth ynghylch pryd y gellid caniatáu i'r fan barcio yn y

lleoliad, a chytunodd yr Aelodau y gallai geiriad yr amod i reoli'r amseroedd/dyddiau hyn gael ei ddirprwyo i'r swyddogion. Cadarnhaodd Mr Odley hefyd mai dim ond donyts fyddai'r fan yn eu gwerthu ac fe gadarnhaodd y swyddogion bod defnydd o'r fath wedi'i reoli gan y disgrifiad o'r datblygiad a'r cynlluniau manwl.

Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch y prinder gwyrddni yn ardal yr harbwr, ac fe gynghorodd y swyddogion eu bod yn ymwybodol o'r pryderon hynny, a bod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r sefyllfa, ond ystyriwyd bod darparu dau blannwr yn rhesymol a chymesur o ran y cais oedd gerbron y Pwyllgor.

Cynigiwyd argymhelliad y swyddogion i gymeradwyo gan y Cynghorydd James, a'i eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall, yn amodol ar ddirprwyo geiriad amod pedwar (oriau a dyddiau'r lleoli a'r defnydd).

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau, cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth ac oriau defnydd a lleoliad.**

[Ail-ymunodd y Cynghorydd Williams â'r cyfarfod ond cyflwynodd y Cynghorwyr Bowen, James a Skyrme-Blackhall eu hymddiheuriadau a gadael.]

(g) Cyfeirnod: NP/24/0177/FUL
Ymgeisydd: N Powell
Cynnig: Newid defnydd i eiddo preswyl ac amnewid y ffenestri ar ffrynt y tŷ
Lleoliad: Dolphin House a Myrtle Cottage, Stryd Fawr, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EJ

Roedd yr adroddiad yn argymell cymeradwyo newid defnydd o fanwerthu i breswylio ar gyfer dau eiddo ynghlwm yn ei gilydd yng Nghanol Mân-werthu Saundersfoot.

Roedd y cais yn cynrychioli gwyriad oddi ar bolisi CDLl ac yn ail gyflwyniad o gais blaenorol oedd wedi'i dynnu yn ôl. Roedd y cais hwn wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol o brinder galw masnachol. Ystyriwyd na fyddai'r newid defnydd yn andwyol i ganol Saundersfoot, lle'r oedd safleoedd cais yr eiddo wedi bod yn wag ers dros dair blynedd. O'r herwydd byddai'r cynnig yn cyfrannu'n adeiladol at nodweddion arbennig Saundersfoot yn lletach ac roedd y cais yn cydymffurfio ag amcanion cyffredinol CDLl2, er gwaethaf y gwyriad technegol oddi ar Bolisi 57.

Yn dilyn ymgynghoriad doedd yna'r un gwrthwynebiad wedi dod i law wrth ymgynghorwyr statudol na'r un trydydd parti, ac fe gadarnhaodd y swyddog er nad oedd Cyngor Cymuned Saundersfoot wedi ymateb doedden nhw ddim wedi gwrthwynebu'r cais cynt a gafodd ei dynnu yn ôl.

Gofynnodd un Aelod gwestiwn ynghylch y math o wydro a fwriadwyd yn lle'r ffenestri crom ac fe'i cynghorwyd mai ffenestr ddalennog o'r math crom fydden nhw. Nododd un Aelod bod yr unedau wedi'u defnyddio gan siop elusen ers deunaw mis ond bod y defnydd hwnnw wedi peidio. Cytunodd yr Aelodau bod eiddo preswyl yn rhagori ar unedau siop gwag. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan Mrs Hoss, cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â lluniadau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth a goleuo.**

**7. Apeliadau**

Adroddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu ynghylch naw apêl (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ar ba fan roedd pob un o'r achosion wedi cyrraedd yn y broses apêl.

Esboniodd y swyddogion iddyn nhw gael arddeall bod gan PEDW (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) beth wmbreth o apeliadau roedden nhw'n delio â nhw. Byddai pob apêl yn cael eu trin trwy dystiolaeth ysgrifenedig yn hytrach na gwrandawiad.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Medi 2024 heb eu diwygio. |